WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ionawr 2014

Dogfen ymgynghori

Graddfeydd ffioedd archwilio ac arolygu llywodraeth leol 2014-15

Yn cynnwys graddfeydd ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14 awdurdodau unedol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn a chynghorau tref a chymuned.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd safbwyntiau a sylwadau ar gynigion Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y canlynol:

- graddfeydd ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14 awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn a chynghorau tref a chymuned;
- graddfeydd ffioedd am archwiliadau ac asesiadau gwella 2014-15 (ffioedd i'w codi gan Swyddfa Archwilio Cymru);
- graddfeydd ffioedd am archwilio mathau eraill o gyrff llywodraeth leol, am waith sydd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, ac am waith ardystio grantiau.

Ar ôl yr ymgynghoriad, caiff graddfeydd ffioedd terfynol eu rhagnodi a'u cyhoeddi gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Sut i ymateb

Dylid ymateb erbyn 28 Chwefror 2014.

Gellir anfon ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Neu gellir eu llenwi'n electronig a'u hanfon dros e-bost i *info@wao.gov.uk*

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod neu ffoniwch 029 2032 0500.

Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi, neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd Ddeddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol.

Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd a anfonir yn awtomatig gan eich system TG ei ystyried yn rhwymol ar yr Archwilydd Cyffredinol ar ei ben ei hun.

Caiff data personol eu prosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Os caiff data o'r fath eu cynnwys mewn cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 yn yr achosion penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu y caiff gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus ei datgelu ond y caiff enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd eu cadw'n gyfrinachol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Rhagair gan yr Archwilydd Cyffredinol

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i mi ymgynghori ar y graddfeydd ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas ag archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru a'u rhagnodi. Mae hefyd yn ofynnol i mi ymgynghori ar y graddfeydd ffioedd mewn perthynas ag archwiliadau, asesiadau ac arolygiadau arbennig a gynhelir o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'u rhagnodi.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu fy nghynigion o ran graddfeydd ffioedd ar gyfer 2014-15.

Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith y gall archwilwyr ei ddefnyddio i drafod ffioedd gyda chyrff llywodraeth leol. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn fy ngalluogi i nodi a herio ffioedd yr ymddengys eu bod yn rhy uchel neu'n rhy isel i alluogi archwilwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n llawn.

Wrth ragnodi graddfeydd ffioedd, fy nod yw sicrhau bod y ffioedd a gynhyrchir drwy'r graddfeydd hynny yn ddigonol i alluogi Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal cydbwysedd ariannol yn ei gwaith llywodraeth leol.

Byddwn wedi lansio'r ymgynghoriad hwn tua diwedd 2013 fel arfer, ond gofynnaf am eich amynedd am fod y broses ychydig yn hwyr eleni. Achoswyd yr oedi hwn gan nifer o newidiadau sydd ar droed i'r fframwaith ar gyfer pennu ffioedd archwilio a ffactorau eraill. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i mi eu hesbonio'n fyr.

O 1 Ebrill 2014, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013), bydd y cyfrifoldeb am ymgynghori ar raddfeydd ffioedd a phennu ffioedd archwilio yn cael ei drosglwyddo o'r Archwilydd Cyffredinol i Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd hi'n ofynnol hefyd i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun ehangach ar gyfer codi ffioedd ac ni chaiff godi ffioedd hyd nes bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r cynllun hwnnw. Bu'n rhaid i mi gyflwyno trefniant dros dro eleni ac o dan y trefniant hwnnw yr wyf i, fel Archwilydd Cyffredinol, yn ymgynghori ar raddfeydd ffioedd ac yn rhagnodi graddfeydd ffioedd, y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hetifeddu maes o law ac yn eu cynnwys yn ei chynllun ar gyfer codi ffioedd o 1 Ebrill 2014.

Mae Deddf 2013 hefyd yn rhoi sylfaen wedi'i diwygio ychydig i bennu ffioedd am ein holl waith archwilio. Ni chaiff Swyddfa Archwilio Cymru fynd y tu hwnt i'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Mae costau llawn yn cynnwys costau fel cyflog, pensiwn cyflogwr a chyfraniadau yswiriant gwladol, ynghyd â chyfran briodol o orbenion sefydliadol. Mewn ymateb i'r darpariaethau hyn, rydym wedi diwygio ein methodoleg dyrannu costau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â hwy wrth ymgymryd â phob gweithgarwch archwilio neu arolygu ym mhob corff a archwilir ym mhob blwyddyn archwilio. Mae'r diwygiadau y bu'n rhaid eu gwneud i'n methodoleg dyrannu costau, ynghyd â'r newidiadau a wnaed yn dilyn adolygiad o'n dull cynllunio archwiliadau yn seiliedig ar sero, wedi arwain at nifer o newidiadau i raddfeydd ffioedd ar gyfer 2014-15.

Ffactor pwysig arall yw'r dyfarniad diweddar ynghylch codi TAW ar ffioedd archwilio. Cyn 1 Ebrill 2013 roeddwn yn codi TAW ar ffioedd archwilio llywodraeth leol a chyrff y GIG gyda chytundeb CThEM. Ym mis Rhagfyr 2012, penderfynodd CThEM na ddylwn godi TAW ar y gwaith hwn o 1 Ebrill 2013. O ganlyniad i hyn, ni allwn adennill cymaint o'r TAW a godir arnom am nwyddau a gwasanaethau. Mae'r dyfarniad wedi arwain at gynnydd anochel o tua £600,000 y flwyddyn yn ein sylfaen gostau, sydd yn ei dro wedi effeithio ar raddfeydd ffioedd a ffioedd archwilio ar gyfer 2014-15.

Un newid arall a gyflwynwyd yn sgil Deddf 2013 yw na fydd Swyddfa Archwilio Cymru, o 1 Ebrill 2014, yn gallu cadw'r cronfeydd a gynhyrchwyd hyd yma drwy weithgarwch archwilio llywodraeth leol. Felly rydym yn bwriadu ad-dalu'r cronfeydd yma, oedd yn werth £1.2 miliwn ar 1 Ebrill 2013, i gyrff llywodraeth leol ar 31 Mawrth 2014. Dylai'r ad-daliadau hyn helpu i leihau'r effaith a gaiff unrhyw gynnydd yn y ffioedd a godir ar gyrff llywodraeth leol yn 2014-15 boed hynny o ganlyniad i'r dyfarniad TAW neu'r newidiadau angenrheidiol i'n methodoleg dyfarnu costau a'n dull cynllunio archwiliadau yn seiliedig ar sero.

Bydd y ffioedd a godir ar gyrff unigol yn parhau i ddibynnu ar amgylchiadau pob corff. Rhaid i'r ffi fod yn ddigon i ariannu'r gwaith sydd ei angen gan ystyried materion fel yr amgylchedd llywodraethu, risg, trefniadau ariannol a rheoli perfformiad, maint, cymhlethdod a hanes blaenorol y corff o wella. Os bydd angen gwneud gwaith perfformiad ychwanegol neu nas cynlluniwyd o ganlyniad i fethiannau ar ran cyrff a archwilir i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar archwilwyr i wneud eu gwaith yn effeithlon, caiff ffioedd ychwanegol eu codi sy'n gymesur â'r gwaith ychwanegol dan sylw.

Bydd eich tîm archwilio lleol yn gallu rhoi mwy o fanylion am ffioedd yn lleol.

Edrychaf ymlaen at gael eich barn ar fy nghynigion.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynnwys

Graddfeydd ffioedd am waith archwilio blynyddol llywodraeth leol **6**

Awdurdodau unedol 8

Awdurdodau tân ac achub 10

Awdurdodau parciau cenedlaethol 12

Comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid 14

Cynghorau tref a chymuned 16

Cronfeydd pensiwn 17

Graddfeydd ffioedd am waith arall **18**

Archwiliadau o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol, gwaith sydd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, a gwaith ardystio grantiau 19

Gwaith atodol 21

Graddfeydd ffioedd am waith archwilio blynyddol llywodraeth leol

1 Mae'r graddfeydd ffioedd arfaethedig am waith archwilio blynyddol mewn cyrff llywodraeth leol yn seiliedig ar ddull cynllunio archwiliadau yn seiliedig ar sero sy'n ystyried amrywiadau o ran risgiau cyrff a archwilir a ffactorau eraill a all effeithio ar allu archwilwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol.

2 Caiff y gofynion o ran adnoddau eu trosi'n raddfeydd ffioedd sy'n uniongyrchol seiliedig ar gostau cyflawni'r gwaith, sy'n cynnwys teithio a chynhaliaeth a chyfran briodol o'r gorbenion sefydliadol.

3 Cyflwynir y graddfeydd ffioedd arfaethedig, sydd wedi cael eu meincnodi, lle bo hynny'n briodol, yn erbyn ffioedd a godir gan asiantaethau archwilio eraill yn y DU, ar ffurf tablau a graffiau.

4 Mae gwaith archwilio blynyddol yn cynnwys gwaith a gyflawnir mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a, lle bo hynny'n berthnasol, gwaith archwilio ac asesu gwelliant a gyflawnir o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

5 Nid yw'r graddfeydd ffioedd am waith archwilio blynyddol yn cynnwys gwaith sydd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, megis adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith sy'n ymwneud â her etholaethol ac atal gwariant anghyfreithlon. Codir tâl am waith ychwanegol o'r fath fesul diwrnod.

6 Mae graddfeydd ffioedd gwahanol hefyd yn gymwys i'r gwaith o ardystio hawliadau a datganiadau mewn perthynas â grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a roddwyd i gyrff gwasanaethau llywodraeth leol.

7 Bydd archwilwyr yn defnyddio eu barn broffesiynol, a lywir gan God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, safonau cyfrifyddu ac archwilio perthnasol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn pennu pa ffioedd sy'n gymwys i gorff penodol a archwilir gan ddefnyddio'r raddfa ffioedd benodedig ar gyfer y math hwnnw o gorff.

8 Os na fydd ffioedd arfaethedig ar y raddfa ffioedd benodedig, neu os byddant wedi newid mwy na ±5 y cant o flwyddyn i flwyddyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu'r ffioedd arfaethedig er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau perthnasol dan sylw yn cynnig eglurhad digonol. Bydd hyn yn cyfyngu ar y posibilrwydd o weld ffioedd gormodol neu annigonol.

9 Ar ôl defnyddio'r rheolaethau hyn trafodir y ffi gyda'r corff perthnasol a archwilir ac, yn amodol ar unrhyw wybodaeth bellach a ddaw i'r amlwg sy'n effeithio ar y gwaith i'w gyflawni, fe'i cadarnheir fel y ffi i'w chodi ar y corff hwnnw.

10 Gan fod trefniadau bilio am waith asesu ac archwilio gwelliant eisoes ar waith ar gyfer y cyfnod a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2014, dylid nodi na fydd y trefniadau hynny'n newid tan gyfnodau o fis Ebrill 2014 ymlaen.

11 Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar raddfeydd ffioedd a phennu ffioedd ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Awdurdodau unedol

12 Mae canolrif graddfa cyfanswm ffioedd 2014-15 ar gyfer awdurdodau unedol wedi cynyddu yn achos awdurdodau llai a lleihau yn achos awdurdodau mwy er mwyn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o gyfanswm costau gwaith archwilwyr.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14

Gwariant gros £000,000	Ystod cyfanswm ffioedd £000		
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm
100	119	140	161
200	143	168	193
300	159	187	215
400	172	202	232
500	182	215	247
600	191	225	259
700	199	235	270
800	207	243	280
900	213	251	289
1,000	219	258	297
1,100	225	265	304
1,200	230	271	312

Graddfa ffioedd am archwiliadau ac asesiadau gwella 2014-15

Pob awdurdod unedol	Ystod cyfanswm ffioedd £000		
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm
	98	117	136

Graddfa cyfanswm ffioedd 2014-15

Gwariant gros £000,000	Ystod cyfanswm ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	Canolrif 2013-14
100	217	257	296	196
200	241	285	329	242
300	257	304	351	273
400	270	319	368	298
500	281	331	382	319
600	290	342	395	337
700	298	352	405	353
800	305	360	415	367
900	311	368	424	380
1,000	318	375	432	393
1,100	323	382	440	404
1,200	328	388	447	415

Graff o raddfa cyfanswm ffioedd 2014-15 ar gyfer awdurdodau unedol



Awdurdodau tân ac achub

13 Mae canolrif graddfa cyfanswm ffioedd 2014-15 ar gyfer awdurdodau tân ac achub wedi cynyddu yn achos awdurdodau llai a lleihau yn achos awdurdodau mwy er mwyn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o gyfanswm costau gwaith archwilwyr.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14

Gwariant gros £000,000	Ystod cyfanswm ffioedd £000		
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm
20	35	41	47
40	42	49	57
60	47	55	63
80	50	59	68
100	53	63	72

Graddfa ffioedd am archwiliadau ac asesiadau gwella 2014-15

Pob awdurdod tân ac achub	Ystod cyfanswm ffioedd £000		
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm
	11	16	21

Graddfa cyfanswm ffioedd 2014-15 ar gyfer awdurdodau tân ac achub

Gwariant gros £000,000	Ystod cyfanswm ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	Canolrif 2013-14
20	45	57	68	48
40	52	65	78	61
60	57	71	84	71
80	61	75	89	79
100	64	79	93	85

Graff o raddfa cyfanswm ffioedd 2014-15 ar gyfer awdurdodau tân ac achub



Awdurdodau parciau cenedlaethol

14 Mae canolrif graddfa cyfanswm ffioedd 2014-15 ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol wedi cynyddu er mwyn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o gyfanswm costau gwaith archwilwyr wrth archwilio cyfrifon.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14

Gwariant gros £000,000	Ystod cyfanswm ffioedd £000		
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm
2	22	25	29
4	26	31	35
6	29	34	39
8	31	37	42
10	33	39	45

Graddfa ffioedd am archwiliadau ac asesiadau gwella 2014-15

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Ystod cyfanswm ffioedd £000		
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm
	7	10	12

Graddfa cyfanswm ffioedd 2014-15

Gwariant gros £000,000	Ystod cyfanswm ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	Canolrif 2013-14
2	29	35	41	23
4	33	40	47	30
6	36	44	51	35
8	38	46	54	39
10	40	49	57	42

Graff o raddfa cyfanswm ffioedd 2014-15 ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol



Comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

15 Diddymodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 awdurdodau'r heddlu gan sefydlu, fel endidau cyfreithiol ar wahân, gomisiynydd yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabl ym mhob ardal heddlu leol. Mae angen i archwilwyr yn awr archwilio dau gorff statudol mewn ardal heddlu, yn hytrach nag un.

16 Y llynedd dim ond graddfeydd ffioedd dros dro am archwilio cyfrifon comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid yr oedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi gallu eu datgan oherwydd roedd yn aros am gadarnhad terfynol o ofynion cyfrifyddu'r ddau gorff.

17 Mae gofynion cyfrifyddu'r ddau gorff bellach wedi'u cadarnhau, sy'n golygu y gellir pennu graddfeydd ffioedd terfynol. Mae archwilwyr wedi gweithio gyda phrif swyddogion cyllid i sicrhau bod y cynnydd angenrheidiol mewn ffioedd er mwyn gwneud y gwaith ychwanegol ar y cyfrifon, wedi cael ei gadw i'r swm lleiaf sydd ei angen er mwyn i archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldebau.

18 Mater i'r archwilwyr fydd penderfynu sut y caiff cyfanswm y ffi ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14

Gwariant gros cyfun y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl £000,000	Ystod ffioedd cyfun y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	Amcangyfrif o ganolrif y llynedd
50	67	76	85	55 to 60
100	78	89	100	73 to 79
150	85	97	110	86 to 93
200	90	104	117	96 to 105
250	95	109	124	105 to 115
300	99	114	129	113 to 123
350	103	118	134	121 to 131

Graff o raddfa ffioedd 2014-15 ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid



Cynghorau tref a chymuned

19 Mae cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant o hyd at £1 filiwn yn cael eu harchwilio ar sail 'sicrwydd cyfyngedig'. Mae ffioedd am yr archwiliadau hyn, sy'n amrywio yn unol â throsiant blynyddol, wedi cael eu diwygio ar gyfer yr archwiliadau o gyfrifon 2013-14 er mwyn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o gyfanswm costau gwaith archwilwyr a chyd-fynd â darpariaethau cyfreithiol newydd. Bydd y newidiadau yn arwain at gynnydd bach mewn ffioedd i gynghorau tref a chymuned llai o faint, ond byddant yn arwain at leihad sylweddol mewn ffioedd i gynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant o fwy na £30,000.

20 O dan amgylchiadau lle bo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd, a chodir ffioedd ychwanegol yn gymesur â'r gwaith ychwanegol dan sylw.

21 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyflwyno un math o archwiliad ar gyfer pob cyngor tref a chymuned, sy'n debyg i'r archwiliad canolradd presennol, yn lle'r archwiliadau dwy haen presennol (sylfaenol/canolradd), o flwyddyn cyfrifon 2015-16 ymlaen. Bydd y drefn ddiwygiedig yn annog cynghorau i ganolbwyntio ar wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, ac yn arwain at fwy o adroddiadau cyhoeddus ar faterion sy'n deillio o waith archwilio.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14 cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant o hyd at £1,000,000

Incwm neu wariant blynyddol (telir ffioedd yn seiliedig ar ba un sydd fwyaf bob blwyddyn)	Math o archwiliad	Ffi arfaethedig	Ffi a godwyd y llynedd
£Dim - £1,000	Sylfaenol	£30	Ni fydd ffi yn daladwy
£1,001 - £5,000	Sylfaenol	£80	£60
£5,001 - £10,000	Sylfaenol	£175	£130
£10,001 - £30,000	Sylfaenol	£205	£150
£30,001 - £60,000	Sylfaenol	£295	£310
£60,001 - £100,000	Sylfaenol	£350	£425
£100,001 - £200,000	Sylfaenol	£415	£575
£200,001 - £300,000	Canolradd	£650	£920
£300,001 - £400,000	Canolradd	£650	£1,100
£400,001 - £500,000	Canolradd	£650	£1,520
£500,001 - £750,000	Canolradd	£920	£2,045
£750,001 - £1,000,000	Canolradd	£920	£2,625

Cronfeydd pensiwn

22 Mae canolrif y raddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14 cronfeydd pensiwn llywodraeth leol wedi cynyddu er mwyn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o gyfanswm costau gwaith archwilwyr.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2013-14

Pob cronfa bensiwn	Ystod cyfanswm ffioedd £000			
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	Canolrif 2013-14
	30	40	50	28

Graddfeydd ffioedd am waith arall

Archwiliadau o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol, gwaith sydd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, a gwaith ardystio grantiau

23 Ar wahân i'r mathau hynny o gyrff y cynigiwyd graddfeydd ffioedd ar eu cyfer, mae nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol. Ar gyfer archwiliadau o'r cyrff hyn, caiff dull cynllunio archwiliadau sy'n seiliedig ar sero ei ddefnyddio o hyd, a chaiff y gofynion o ran adnoddau eu trosi'n ffioedd sy'n uniongyrchol seiliedig ar gostau cyflawni'r gwaith.

24 Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i archwilwyr o bryd i'w gilydd wneud gwaith sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach sy'n ymwneud â her etholaethol ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith dan sylw.

25 Caiff archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn fesul diwrnod ac maent yn adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

26 Ym mhob un o'r achosion hyn, caiff ffioedd eu codi ar sail y cyfraddau ffioedd a nodir isod. Efallai y bydd cyfraddau uwch yn briodol ar gyfer darnau penodol o waith, sy'n galw am sgiliau arbenigol. O dan amgylchiadau o'r fath mae'n rhaid i'r archwilydd gysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol ymlaen llaw.

Cyfraddau ffioedd am waith arall

Graddfa staff		Cyfradd ffioedd fesul awr
Archwiliad ariannol	Arweinydd ymgysylltu	£162
	Rheolwr yr archwiliad	£111
	Arweinydd tîm	£75
	Aelod o'r tîm	£56
	Swyddog dan hyfforddiant	£45
	Technegydd	£30
Archwiliad perfformiad	Arweinydd ymgysylltu	£173
	Rheolwr archwilio	£111
	Arweinydd archwilio perfformiad	£93
	Archwilydd perfformiad	£65

27 Isod, ceir amcangyfrifon o gyfrannau perthynol y graddfeydd staff archwiliadau ariannol a ddefnyddir ar gyfer y mathau gwahanol o waith ar grantiau.

28 Y grantiau cymhleth yw:

a BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor

b EUR01 Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2007-13 (Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol)

c HOU03 Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (awdurdodau nad ydynt yn trosglwyddo stoc)

ch LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol

d PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Amcangyfrif o'r cymysgedd staff ar gyfer gwaith ardystio grantiau

Graddfa staff	Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth %	Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill %
Arweinydd ymgysylltu	1 i 2	0 i 1
Rheolwr yr archwiliad	4 i 6	1 i 2
Arweinydd tîm	18 i 21	12 i 16
Aelod o'r tîm/swyddog dan hyfforddiant/technegydd	77 i 71	87 i 81

Gwaith atodol

29 Caiff cyrff a archwilir a mathau penodol eraill o gyrff wneud trefniadau â Swyddfa Archwilio Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol.

30 Ni dderbynnir gwaith o'r fath os gallai beryglu annibyniaeth ac uniondeb archwiliadau neu os gellid ystyried ei fod yn gwneud hynny, oni ellir rhoi mesurau lliniaru a rheolaethau priodol ar waith.

31 Os cyflawnir gwaith o'r fath yn unol â'r rheolau hyn, caiff y ffioedd i'w codi, o 1 Ebrill 2014, eu pennu fel y gwêl Swyddfa Archwilio Cymru orau, ar yr amod nad yw'r ffioedd yn fwy na chyfanswm cost y gwaith.